
Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Adroddiad CATS

## Cathod a'u Hystadegau Cymru 2025



CATS PROTECTION



# Cynnwys

4 Methodoleg
5 Croeso

**7 Canfyddiadau allweddol**

**8 Cyflwr y wlad**
8 Poblogaeth cathod
9 Perchnogaeth cathod mewn cartrefi ledled y DU
10 Proffil perchnogion cathod

**12 Y farchnad gathod**
12 Pa fath o gathod sydd gan bobl?
14 Sut mae cathod yn cael eu perchnogi

**16 Gofal Milfeddygol**
16 Capasiti milfeddygol
17 Cofrestru â milfeddyg
17 Ymweliadau â milfeddyg
19 Microsglodynnu
22 Niwtro a bridio
24 Yswiriant, brechiadau a thriniaeth parasitiaid yng Nghymru
25 Iechyd a deiet

**26 Gofal, lles ac ymddygiad cathod**
26 Ffynonellau gwybodaeth am ofal cathod
30 Amgylchedd cathod
34 Ymddygiad a straen
35 Tân gwyllt

**36 Cwmnïaeth**

**42 Crynodeb o CATS**

**44 Ble rydyn ni’n mynd o fan hyn?**

**45 Gwasanaethau**

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Methodoleg

Am y chweched flwyddyn yn olynol, rydyn ni wedi comisiynu asiantaeth allanol ac annibynnol, Basis Research, i wneud y gwaith ymchwil sy'n rhan o *Adroddiad CATS Cymru 2025*.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gasglu gwybodaeth ymysg cynulleidfa sy'n gynrychioladol yn genedlaethol o oedolion dros 18 oed yng Nghymru er mwyn i ni amcangyfrif cyfran y perchnogion cathod yn y wlad. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg manylach ymysg perchnogion cathod. Cynhaliwyd yr arolwg hwn rhwng 25 Chwefror 2025 ac 26 Ebrill 2025. Mae 'yn ystod y 12 mis diwethaf' yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod o amser rhwng Mawrth 2024 a Mawrth 2025. Oni bai y nodir yn wahanol, mae data cymharol yn yr arolwg hwn yn defnyddio data o *Adroddiad CATS Cymru 2024*.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys sampl oedd yn cynrychioli poblogaeth y DU o 3,521 o unigolion a hwb o 6,322 o berchnogion cathod, gan gynnwys hwb rhanbarthol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol yn yr ardaloedd hyn. Ar y cyfan, fe wnaeth 10,626 o bobl gymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys 500 o berchnogion cathod yng Nghymru.

## Cyflwyno'r data

Rydyn ni'n gweithio gyda Basis Research er mwyn cyfrifo amcangyfrifon o'r boblogaeth gathod yn flynyddol. Defnyddir tair ffynhonnell ddata yn y cyfrifiad hwn:

- panel arolwg ar-lein sy'n cynrychioli'r genedl i bennu canran yr aelwydydd yn y DU sy'n berchen ar gath (n=3,521)
- data o'r arolwg o berchnogion cathod ar nifer y cathod y mae pob aelwyd yn berchen arni
- data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar nifer yr aelwydydd

Ymhob rhan o'r adroddiad, mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Oherwydd talgrynnu, bydd adegau yn yr adroddiad pan nid yw'r cyfrifiadau canran yn adio i 100%. Mae ffigurau eraill, megis amcangyfrifon o'r gyfran o gathod yn y boblogaeth, wedi'u talgrynnu i ddau ffigur ystyrlon. Wrth gyfrifo amcangyfrifon cathod, rydyn ni wedi defnyddio cyfanswm y ffigur amcangyfrifiedig o'r boblogaeth o gathod ac wedi'i luosi gyda'r canran cyfan, e.e. nid yw 15% o'r holl berchnogion cathod wedi cofrestru'r gath gyda milfeddyg, sydd gyfwerth ag 1.5 miliwn o gathod. Mae'r ystadegau a chyfrifiadau'r boblogaeth yn amcangyfrifon ar sail ymatebion perchnogion i'r arolwg ar-lein.

Cynhelir profion arwyddocâd ar gyfyngau hyder 99% a 95%. Pan fydd canfyddiad yn cael ei nodi'n arwyddocaol yn yr adroddiad, ystyrir ei fod yn arwyddocaol ar gyfwng hyder 95%.

Cael cath: Drwy gydol yr adrodddiad byddwn yn edrych ar niferoedd y cathod a gafodd eu perchnogi yn ddiweddar, yn enwedig yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â chyfnod arall, e.e. dros flwyddyn yn ôl. Mae'r data yn dod o'r cwestiwn 'Pryd wnaethoch chi gael cath?' yn Arolwg Ymchwil CATS 2025.

Sampl sy'n cynrychioli'r genedl: Y boblogaeth sydd o ddiddordeb i ni yw poblogaeth gyfan y DU. Roedd y sampl sy'n cynrychioli'r genedl yn adlewyrchu ei strwythur, gan gynnwys rhywedd, oedran, grwpiau economaidd-gymdeithasol a rhanbarthau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais yma stats@cats.org.uk



# Croeso i Adroddiad Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru 2025

Rydyn ni'n falch iawn o gyflwyno'r chweched rhifyn o *Adroddiad Cathod a'u Hystadegau (CATS) Cymru*, yr arolwg blynyddol mwyaf sy'n canolbwyntio ar ddeall bywydau cathod a'r bobl sy'n gofalu amdanyn nhw yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau eleni yn cynnig cipolwg diddorol iawn ar sut mae perchnogaeth cathod yn raddol ddatblygu gan adlewyrchu agweddau, ymddygiadau a thueddiadau cymdeithasol sy'n newid.

Fel prif elusen lles cathod y DU, mae Cats Protection yn dibynnu ar y data hwn er mwyn cadw ar y blaen gyda materion sy'n dod i'r amlwg a sicrhau ein bod yn gwneud y gorau dros gathod a'u perchnogion. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i ddeall safbwyntiau'r rheini nad ydynt yn berchen ar gathod ar hyn o bryd, gan ein galluogi i lunio negeseuon mwy cynhwysol ac effeithiol.

Mae adroddiad eleni yn datgelu nifer o dueddiadau nodedig. Rydyn ni'n gweld cynnydd yn y nifer sy'n berchen ar gathod ymysg unigolion iau, mwy cefnog, ochr yn ochr â diddordeb cynyddol mewn bridiau pedigri. Mae mwy o gathod yn cael eu prynu yn hytrach na'u mabwysiadu, gan roi mwy o bwysau ar y sector ailgartrefu, sydd yn amlach na pheidio yn parhau i weithio ar gapasiti uchel i gefnogi cathod mewn angen.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cyfrannu'n fwy amlwg at siapio sut mae perchnogion iau yn meddwl am eu cathod ac yn gofalu amdanyn nhw. Er bod rhywfaint o gynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys cathod yn gallu bod yn niweidiol, mae hefyd yn gyfle pwerus i rannu negeseuon lles cadarnhaol. Drwy hyrwyddo cynnwys sy'n parchu ac yn hyrwyddo lles cathod, gallwn ddefnyddio'r platfformau hyn i gefnogi gwell dealltwriaeth a thriniaeth o gathod ym mhobman.

Mae mynediad at wasanaethau milfeddygol yn parhau i fod yn bryder, gyda rhwystrau'n cynyddu ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ddiddorol, er mai cost yw'r prif rwystr o hyd i lawer o berchnogion cathod Cymru wrth geisio cael gofal milfeddygol, mae cost yn cael ei chrybwyll yn llai aml fel rhwystr. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu tuedd tuag at ddemograffeg perchnogion cathod mwy cefnog ac yn codi cwestiwn pwysig : a allai rhai perchnogion llai cefnog bellach fod yn teimlo na allant fforddio bod yn berchen ar gath o gwbl? Gyda chymaint o gathod digroeso sydd angen cartrefi , rhaid inni barhau i gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n llai abl i fforddio bod yn berchen ar gath.

Yn Cats Protection, rydyn ni'n awyddus i weithio gyda pherchnogion, bridwyr a gweithwyr milfeddygol proffesiynol i fynd i'r afael â'r heriau hyn, er mwyn gwella lles cathod ledled y DU.



**Kit Sturgess VetMB, PhD, DSAM, FRCVS**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Cats Protection**



Cynnwys
**Crynodeb gweithredol**
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau





# Crynodeb gweithredol

## Cyflwr y sector

- Mae 480,000 o berchnogion cathod yng Nghymru; yr un fath â'r llynedd
- Mae oedran perchnogion cathod yng Nghymru wedi aros yn weddol debyg i'r llynedd; mae perchnogion cathod Cymru yn tueddu i fod yn iau na phoblogaeth gyffredinol Cymru
- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn fenywod na dynion

## Y farchnad gathod

- Mae cathod pedigri bellach yn cynrychioli 32% o gyfanswm poblogaeth cathod Cymru; cynnydd ers y llynedd
- Er bod prynu cathod wedi dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru, mae cyfran y cathod a gafodd 'eu prynu' yng nghyfanswm poblogaeth cathod Cymru yn dal yn is na'r DU gyfan
- Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r bwlch rhwng y nifer o gathod a gafodd eu prynu neu eu mabwysiadu yng Nghymru yn ehangach , o'i gymharu â phoblogaeth gyfan cathod Cymru

## Gofal milfeddygol

- Mae cyfraddau niwtro wedi gostwng yng Nghymru i 81%
- Mae perchnogion o Gymru yn llai tebygol o fynd â'u cath at y milfeddyg fel mater o drefn bob blwyddyn o'i gymharu â'r DU gyfan (55% o'i gymharu â 64%)
- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn dal i ddweud mai cost yw'r prif reswm dros beidio ag ymweld â'r milfeddyg gymaint ag yr hoffent

## Gofal, lles ac ymddygiad cathod

- Mae perchnogion cathod Cymru yn ymchwilio mwy i anghenion eu cathod, ac yn dal i droi'n bennaf at eu milfeddyg am gyngor
- Mae cyfryngau cymdeithasol a chynnwys fideo yn dod yn fwyfwy dylanwadol ar wybodaeth perchnogion cathod Cymru, yn enwedig perchnogion iau
- Mae ofnau ynghylch cathod yn cael eu brifo neu eu colli yn golygu bod llawer o berchnogion yng Nghymru yn dewis cadw eu cathod dan do

## Cwmnïaeth

- Mae Cwmnïaeth yn dal i fod yn un o'r prif resymau pam mae pobl Cymru yn dewis bod yn berchen ar gath
- Mae cyfran y perchnogion yng Nghmru sy'n berchen ar gathod oherwydd eu bod 'bob amser wedi cael cathod' yn sylweddol uwch na chyfran y DU gyfan (39% o'i gymharu â 30%)
- O'i gymharu â'r DU gyfan, mae perchnogion yng Nghymru yn cytuno'n mwy cyson â'r datganiadau bod cathod yn fuddiol i les unigolion

Lawrlwythwch PDF i'w rannu o'r dudalen hon yn:
**bit.ly/WalesWelsh-KeyFindings2025**

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
**Cyflwr y wlad**
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Cyflwr y wlad

## Y boblogaeth gathod


Mae **24%** o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar gath.



Mae pobl yng Nghymru yn berchen ar **480,000 o gathod** (480,000 yn 2024).

Nifer cyfartalog y cathod fesul aelwyd sy'n berchen ar gath yng Nghymru yw 1.6 cath (1.7 yn 2024), gyda 61% o aelwydydd ag un gath a 39% yn berchen ar ddwy gath neu fwy.






## Perchnogaeth cathod mewn cartrefi ledled y DU

Mae lefelau perchnogaeth cathod yn amrywio ar draws y DU. Mae 20% o aelwydydd yng Ngogledd Iwerddon yn berchen ar un neu fwy o gathod a 24% o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr, heb unrhyw newidiadau ystadegol arwyddocaol o ffigurau'r llynedd.

Mae dosbarthiad y boblogaeth sy'n berchen ar gath yr un fath i raddau helaeth ledled y DU*.

| | Mewn miliynau | | % yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2025 | 2024 | 2025 |
| Cyfanswm y DU | 10.6 | **10.2** | 25% | **24%** |
| Lloegr | 9.0 | **8.5** | 25% | **24%** |
| Cymru | 0.5 | **0.5** | 24% | **24%** |
| Yr Alban | 0.8 | **0.7** | 22% | **20%** |
| Gogledd Iwerddon | 0.2 | **0.2** | 21% | **22%** |

*Ffynhonnell: cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesandhouseholds?_gl

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
**Cyflwr y wlad**
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Proffil y perchnogion cathod

Mae oedran perchnogion cathod Cymru wedi aros yn weddol debyg i'r llynedd.

**18 – 34 mlwydd oed**
**35%** (35% yn 2024)

**35 – 54 mlwydd oed**
**35%** (37% yn 2024)


**55+ oed**
**29%** (29% yn 2024)

Fodd bynnag, mae unigolion o dan 35 oed yn dal yn fwy tebygol o fod wedi cael cath yn ddiweddar.


| Oedran | Oedolion Cymru | Holl berchnogion cathod Cymru | Perchnogion cathod yng Nghymru sydd wedi cael cath yn ystod y 12 mis diwethaf |
|---|---|---|---|
| 18 i 24 oed | 11% | 15% | 22% |
| 25 i 34 oed | 13% | 20% | 30% |
| 35 i 44 oed | 15% | 18% | 21% |
| 45 i 54 oed | 18% | 17% | 15% |
| 55 i 64 oed | 14% | 18% | 6% |
| 65+ oed | 28% | 12% | 6% |




Mae **25%** o **fenywod** yng Nghymru yn berchen ar gath



Mae **21%** o **ddynion** yng Nghymru yn berchen ar gath






Mae **65%** o holl berchnogion cathod Cymru yn **fenywod**

Mae **34%** o holl berchnogion cathod Cymru yn **ddynion**

Cyson â'r llynedd yw lle mae cathod yn byw yng Nghymru.

**11%** o berchnogion cathod yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd trefol canolog (12% yn 2024)

**25%** o berchnogion cathod yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd (22% yn 2024)


**31%** o berchnogion cathod yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd maestrefol (31% yn 2024)

**17%** o berchnogion cathod yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd lled-wledig (19% yn 2024)


**16%** o berchnogion cathod yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd gwledig (16% in 2024)

Mae'r rhan fwyaf o berchnogion cathod yng Nghymru yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.

**35%** yn byw mewn llety rhent



**63%** yn berchen ar eu cartrefi eu hunain




Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
**Y farchnad gathod**
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau


# Y farchnad gathod

## Pa fath o gathod sydd gan bobl?

Mae'r gyfran o gathod pedigri ym mhoblogaeth cathod Cymru wedi cynyddu ers y llynedd.

- **Cyfanswm poblogaeth cathod anwes yng Nghymru**
- **Cyfanswm poblogaeth cathod anwes yng Nghymru yn 2024**
- **Cathod a berchnogwyd yn y 12 mis diwethaf**






Mae'n ymddangos bod y tuedd a welir yn rhannau eraill o'r DU, sef bod cathod pedigri yn fwyfwy poblogaidd (36%, i fyny o 23% in 2021), bellach yn cael ei weld yng Nghyymru. Mae cathod a berchnogwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yn fwy tebygol o fod yn bedigri.



### Cathod pedigri o'u cymharu â chathod bridiau pur

**Cathod bridiau pur:** brîd penodol o gath a grewyd trwy fridio penodol, ac mae'r ddau riant yr un brîd.

**Cathod traws-frîd:** brîd o gath a grewyd trwy fridio gyda bridiau gwahanol, er enghraifft, dwy gath brîd pur gwahanol neu gath brîd pur a chath nad yw'n frîd pur / cath brîd cymysg.

**Cathod pedigri:** cath brîd pur neu gath traws-frîd sydd wedi cofrestru gyda chorff llywodraethu, ac mae cofnod o'i llinach ar gael.

**Cathod brîd cymysg**: brîd o gath sy'n cael ei chreu drwy fridio annetholiadol, ac nad yw'r gath yn frîd pur nac yn draws-frîd.

Yn yr adroddiad hwn, mae cathod pedigri a chathod bridiau pur wedi'u cynnwys yn y disgrifiad o 'bedigri'.

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
**Y farchnad gathod**
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Sut mae cathod yn cael eu perchnogi

Cafodd 16% o boblogaeth bresennol cathod yng Nghymru eu perchnogi yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cyfateb i bron i 77,000 o gathod.

Mae nifer y cathod 'a brynwyd' yng Nghymru wedi cynyddu fel cyfran o gyfanswm poblogaeth cathod Cymru.

**Wedi'i phrynu***
29%
24% yn 2024, 25% yn 2023, 23% yn 2022, 21% yn 2021

**Wedi'i mabwysiadu o ganolfan achub / ailgartrefu / lloches anifeiliaid yn y DU**
23%
24% yn 2024, 21% yn 2023, 26% yn 2022 a 2021

**Wedi'i mabwysiadu gan gymydog / ffrind / teulu**
18%
19% yn 2024, 21% yn 2023, 20% yn 2022, 19% yn 2021

**Wedi'i chanfod yn gath strae a'i mabwysiadu**
9%
8% yn 2024, 10% yn 2023, 8% yn 2022, 10% yn 2021

**Cath fach gan gath a oedd eisoes yn yr aelwyd**
6%
7% yn 2024, 6% yn 2023, 6% yn 2022, 7% yn 2021


**Cafwyd y gweddill o ffynonellau eraill.**

*Wedi'i phrynu gan fridiwr arbenigol yn y DU, wedi'i phrynu gan rywun rydw i'n ei adnabod sydd ddim yn fridiwr arbennig, wedi'i phrynu gan gymydog / ffrind / aelod o'r teulu, wedi'i phrynu o siop anifeiliaid anwes, wedi'i phrynu gan fridiwr arbenigol o dramor.





Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth cathod anwes Cymru lle:




Yn ystod y 12 mis diwethaf, **mae'r bwlch rhwng y nifer o gathod a gafodd eu prynu neu eu mabwysiadu yng Nghymru yn ehangach.**

**Wedi'u prynu** 38%
**Wedi'u mabwysiadu** 18%

Er bod prynu cathod wedi dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru, mae'r ffigurau dal yn is na'r DU gyfan (DU: mae 38% o'r holl gathod a 44% o'r cathod sydd wedi cael eu perchnogi yn ystod y 12 mis diwethaf wedi cael eu prynu).

**Wedi'i mabwysiadu gan gymydog / ffrind / teulu neu wedi dod o hyd iddi fel strae a'i chymryd i mewn.

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
**Gofal Milfeddygol**
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau


# Gofal Milfeddygol

## Capasiti milfeddygol

Dywedodd **26%** o'r holl berchnogion cathod yng Nghymru eu bod wedi cael trafferth cael gafael ar filfeddyg yn ystod y 12 mis diwethaf..

27% yn 2024 a 2023, 42% yn 2022

Mae cael gafael ar wasanaeth milfeddyg yng Nghymru yn gwella ac mae'n well na'r DU gyfan (30%). Nodwyd bod problemau o ran cael gafael ar filfeddyg yn uwch ymhlith y rhai sy'n 18 i 34 oed (41%). Efallai fod yr unigolion hyn yn fwy tebygol o beidio â bod ar gael yn ystod y diwrnod gwaith pan fydd milfeddygon ar agor. Mae'n gadarnhaol ei bod yn ymddangos bod cael gafael ar filfeddyg yn gwella ar ôl y pandemig.






## Cofrestru â milfeddyg

Cyfran y cathod yng Nghymru sydd wedi cofrestru gyda milfeddyg yw **89%**.

- Wedi cofrestru: 89% (90% yn 2024, 91% yn 2023)
- Heb gofrestru: 11%




**Nid yw bron i 53,000 o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg.** Bydd rhai cathod a'u perchnogion yn fwy tebygol o fod angen cymorth milfeddygol. Er enghraifft, mae cathod awyr agored mewn mwy o berygl o gael anaf oherwydd eu ffordd o fyw, ac efallai y bydd angen mwy o gyngor ar iechyd ar berchnogion tro cyntaf. Rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi'r grwpiau hyn i gael gafael ar wasanaethau milfeddyg.

## Ymweliadau â milfeddyg


Mae perchnogion o Gymru yn llai tebygol o fynd â'u cath at y milfeddyg fel mater o drefn bob blwyddyn o'i gymharu â'r DU drwyddi draw (55% o'i gymharu â 64%).




Mae ymweliadau rheolaidd â milfeddyg yn bwysig er mwyn canfod clefydau'n gynnar a sicrhau bod cathod yn cael gofal ataliol. Mae ymyrraeth gynnar yn aml nid yn unig yn well i'r gath, ond hefyd i'w pherchennog, gan fod cost gofal milfeddygol yn cynyddu pan fydd gan gathod glefyd datblygedig neu broblemau iechyd hirsefydlog a allai fod wedi cael eu dal yn gynt.

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

## Dywed **59%** o berchnogion Cymru nad ydynt yn ymweld â'r milfeddyg mor aml ag y byddent yn dymuno.




Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn dal i ddweud mai cost yw'r prif reswm dros beidio ag ymweld â'r milfeddyg gymaint ag yr hoffent.

**Y gost**
**28%** (32% yn 2024, 29% yn 2023)

**Mae'n achosi gormod o straen i mi / fy nghath***
**25%** (31% yn 2024, 25% yn 2023)

Er mai cost yw'r prif rwystr o hyd i berchnogion o Gymru ymweld â'r milfeddyg yn rheolaidd, mae'r ffigur hwn wedi gostwng ers y llynedd ac mae'n adleisio gostyngiad cyffredinol mewn pryder ariannol yn nata Cymru eleni.

"Mae cael archwiliadau rheolaidd gan filfeddygon yn hollbwysig, gan fod cathod yn dda iawn am guddio arwyddion o salwch. Er bod ymweliadau â'r milfeddyg yn gallu bod yn brofiad sy'n achosi straen i gathod, mae ffyrdd o wneud yr ymweliadau ychydig yn haws. Mae chwilio am Glinig Cyfeillgar i Gathod achrededig yn gam cyntaf gwych. Cyn y daith, gallwch chwistrellu'r flanced yn eich cludwr gydag ychydig o FELIWAY® Classic, yn ogystal â gorchuddio'r cludydd cath â blanced i wneud iddi deimlo'n fwy diogel. Os yw ymweld â'r practis yn achosi straen i chi, siaradwch â'ch milfeddyg. Mae'n bosibl y bydd yn argymell trefnu apwyntiad ar adeg dawelach o'r dydd, neu mae'n bosibl y bydd yn briodol rhoi cyffur tawelu i'ch cath, er mwyn helpu i wneud y profiad yn fwy esmwyth i'r ddau ohonoch."

**Fiona Brockbank, Milfeddyg Rhanbarthol, Cats Protection**




*Nifer yr ymatebion sy'n ymwneud â'r themâu hyn.



## Microsglodynnu

Mae'r niferoedd sy'n microsglodynnu, sef 74%, yn sefydlog yng Nghymru.

- **Microsglodyn: 74%** (74% yn 2024, 71% yn 2023)
- **Dim microsglodyn: 22%**
- **Perchnogion yn ansicr a oes gan eu cath ficrosglodyn ai peidio: 4%**




### Y cathod sy'n llai tebygol o gael eu microsglodynnu

Mae **dros 105,000 o gathod yng Nghymru** yn dal **heb ficrosglodyn** o bosibl, gan leihau eu siawns o gael eu haduno â'u perchnogion pe baent yn mynd ar goll neu'n cael eu dwyn. Mae'r tebygolrwydd y bydd cath yn cael ei microsglodynnu yn cynyddu gydag oedran y perchennog (18 i 34: 63%, 35 i 54: 76%, 55+: 81%) ac mae'n is ar gyfer perchnogion tro cyntaf yng Nghymru (59%). Mae cathod heb yswiriant yn llai tebygol o gael eu microsglodynnu (66%), yn yr un modd â chathod dan do (67%).

Yn ôl perchnogion cathod, mae'r prif resymau rhag microsglodynnu cathod yw ymwneud ag angen cydnabyddedig.

**Nid yw fy nghath yn mynd y tu allan**
**27%**

**Nid yw fy nghath yn crwydro / yn mynd yn bell**
**14%**

**Dwi heb feddwl am ficrosglodynnu fy nghath**
**14%**

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
**Gofal Milfeddygol**
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

"Rydyn ni'n aml yn gweld cathod sy'n amlwg yn cael gofal da ond sydd wedi mynd ar goll ac wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Mae'n dorcalonnus pan nad oes ganddyn nhw ficrosglodyn, gan ei fod yn golygu na allwn ni eu haduno'n gyflym â'u perchnogion. Mae ein canolfan fel arfer yn llawn dop, ac mae'n rhaid i ni gadw cathod strae am 10 i 16 diwrnod er mwyn rhoi amser i rywun ddod ymlaen. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar ein hadnoddau. Pe bai llai na chwarter o berchnogion cathod Cymru yn penderfynu peidio â rhoi microsglodyn i'w cathod, gallai ein capasiti gael ei lethu gan gathod a allai fel arall fod gartref yn barod. Mae microsglodyn cyfredol yn gwneud byd o wahaniaeth. Mae'r amser mae ein tîm yn ei dreulio'n ceisio dod o hyd i berchnogion cathod sydd heb ficrosglodyn yn amser y byddai'n well ei dreulio'n dod o hyd i gartrefi parhaol i gathod a chathod bach sydd wir heb neb."

**Sue Ben-Saud, Rheolwr Canolfan Cathod Cymru, Cats Protection**




Mae llawer o berchnogion/milfeddygon yn dewis rhoi microsglodion i gathod wrth eu niwtro. Gyda niferoedd niwtro yn gostwng, gall hyn arwain at ostyngiad yn niferoedd sy'n dewis gosod microsglodyn hefyd. Am y rheswm hwn, argymhellir bod milfeddygon yn annog microsglodynnu cyn gynted â phosibl, naill ai adeg brechu neu cyn i'r gath adael y bridiwr.

Perchnogion yr anifeiliaid anwes sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod microsglodyn anifail anwes yn cael ei gofrestru a'i ddiweddaru. Dylai bridwyr, llochesi a gwerthwyr cathod sicrhau bod microsglodyn wedi'i gofrestru i'r perchennog newydd neu ddarparu cyfarwyddiadau trosglwyddo. Nid yw practisau milfeddygol yn gyfreithiol gyfrifol am gofrestru, ond bydd llawer o filfeddygon yn atgoffa perchnogion i gofrestru/diweddaru manylion.

## Microsglodion a chadw manylion yn gyfredol

Mae manylion **96%** o gathod sydd â microsglodyn yng Nghymru yn gyfredol.




O blith perchnogion Cymru sydd wedi microsglodynnu'u cath, mae'r gyfran sy'n dweud bod eu manylion yn gyfredol wedi cynyddu i 96% ers y llynedd (93%) ac mae'n fwy na'r DU gyfan (93%). Fodd bynnag, mae hyn yn dal i adael llawer o gathod yng Nghymru gyda manylion sydd wedi dyddio ar eu microsglodyn. O ganlyniad, gallai hyn olygu bod y microsglodyn yn ddiwerth petai'r gath yn mynd ar goll.



Cynnwys

Crynodeb gweithredol

Cyflwr y wlad

Y farchnad gathod

**Gofal Milfeddygol**

Gofal, lles ac ymddygiad cathod

Cwmnïaeth

Cymorth gan Cats Protection

Crynodeb am gathod

Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?


Gwasanaethau


# Niwtro a bridio

Mae'r niferoedd niwtro wedi gostwng eto yng Nghymru.

- **81% wedi'u niwtro** (85% yn 2024, 87% yn 2023)
- **16% heb eu niwtro**
- **3% nid yw'r perchennog yn gwybod**

Mae'r gostyngiad yn y nifer niwtro yng Nghymru eleni yn adleisio'r DU gyfan, a dros amser mae'n parhau â'r tuedd ar i lawr, o 90% yn 2020.





## Y cathod sy'n llai tebygol o gael eu niwtro

**Mae perchnogion cathod iau, rhwng 18 a 34 oed, yn llai tebygol o niwtro eu cathod (71%)**, o gymharu â 84% o bobl rhwng 35 a 54 oed, a 91% o'r rheini dros 55 oed. Mae cathod pedigri hefyd yn llai tebygol o fod wedi cael eu niwtro (73%).

Eleni, mae cost yn llai o rwystr rhag niwtro i berchnogion yng Nghymru. Mae nifer y perchnogion a ddewisodd cost fel y prif reswm rhag niwtro wedi gostwng o 21% i 9%. Mae hyn yn cyfateb i'r duedd gyffredinol o berchnogion cathod mwy cefnog. Ond, mae amrywiadau rhanbarthol yn golygu y gallai cost barhau i fod yn brif rwystr rhag niwtro i rai perchnogion. Bydd helpu perchnogion i oresgyn y broblem hon yn ymyriad pwysig yn y lleoliadau hynny.

Gall agweddau tuag at niwtro hefyd fod yn newid. Er enghraifft, mae cyngor ynghylch niwtro cŵn bellach yn canolbwyntio mwy ar ystyried ffactorau sy'n ymwneud â phob ci unigol (er enghraifft, brîd, oedran, cymeriad, ffordd o fyw). Efallai bod yr ymagwedd hon yn dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n ymdrin â chathod hefyd. Mewn rhai ardaloedd, efallai na fydd effeithiau gorboblogi mor amlwg. Gan fod cathod pedigri sy'n byw dan do yn dod yn fwyfwy poblogaidd ymysg perchnogion mwy cefnog, mae'n bosib y bydd milfeddygon yn teimlo bod ganddynt le i drafod y driniaeth fel rhywbeth mwy dewisol.





## Pan fydd cathod yn cael eu niwtro


Gall cathod atgenhedlu o bedwar mis oed, felly er mwyn rheoli poblogaeth cathod yn gwbl effeithiol, dylai cathod gael eu niwtro erbyn iddyn nhw gyrraedd yr oedran hwn (a elwir yn 'niwtro cyn aeddfedrwydd').

Mae 22% o berchnogion cathod wedi'u niwtro yng Nghymru yn adrodd bod eu cath wedi cael y driniaeth erbyn iddi fod yn bedwar mis oed, gyda 86% yn dweud bod eu cathod wedi'u niwtro erbyn iddyn nhw fod yn flwydd oed. Mae hyn yn golygu y gallai llawer o gathod fod wedi cael cathod bach erbyn iddyn nhw gael eu niwtro.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod amseriad niwtro yn bwysicach na nifer y cathod sy'n cael eu niwtro o ran rheoli'r boblogaeth. Cynnal poblogaeth gytbwys o gathod yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddiogelu lles cathod*.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod milfeddygon yn cefnogi'r broses o niwtro cyn aeddfedrwydd fwyfwy, mae data eraill yn awgrymu nad yw'r gefnogaeth hon bob amser yn arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu niwtro **. Nod Cats Protection yw cyhoeddi crynodeb wedi'i adolygu gan gymheiriaid o'r dystiolaeth wyddonol ynghylch oedran niwtro mewn cathod, gan ganolbwyntio ar yr effeithiau corfforol ac ymddygiadol. Gobeithio y bydd hyn yn helpu i dawelu meddwl milfeddygon a'u hysgogi i niwtro cathod cyn aeddfedrwydd.

"Mae niwtro cathod y mae pobl yn berchen arnyn nhw nid yn unig o fudd i gathod unigol ond mae hefyd yn cefnogi'r boblogaeth ehangach o gathod. Mae peidio â niwtro cathod, neu oedi'r driniaeth, yn cael sgil-effeithiau difrifol i bob cath. Mae angen ein help ni o hyd ar gathod ar y strydoedd ac mewn llochesi achub, tra bod y niferoedd niwtro ymysg cathod a berchnogwyd yn gostwng yn anffodus. Mae'r cyfuniad hwn yn creu pryder lles sylweddol ac yn rhoi baich emosiynol trwm ar y rheini sy'n gofalu am gathod a chathod bach nad oes ar neb mo'u heisiau. Mae niwtro cathod pan fyddant yn bedwar mis oed yn atal beichiogrwydd cynnar ac yn arwain at fanteision ehangach ar lefel y boblogaeth drwy leihau'r dioddefaint yn y dyfodol a achosir gan orboblogi cathod."



**Dr Jenni McDonald, Epidemiolegydd Cathod, Cats Protection**

*McDonald J, et al. (2023) Cat: Empirical modelling of Felis catus population dynamics in the UK. *PLOS ONE* 18(7):e0287841. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0287841

** Barn ac arferion milfeddygol ynghylch niwtro yn bedwar mis oed: canfyddiadau hydredol gan BSAVA a BVNA, Cats Protection, 2023.

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
**Gofal Milfeddygol**
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau


# Yswiriant, brechiadau a thriniaeth parasitiaid

Cyfran y cathod yng Nghymru sydd wedi'u hyswirio: **46%** (42% yn 2024)


Cyfran y cathod yng Nghymru sydd â'r brechlynnau cyfredol: **72%**

(70% yn 2024)

## Triniaeth chwain




## Triniaeth llyngyr




Er bod nifer y cathod sydd wedi'u hyswirio a'u brechu wedi gwella yng Nghymru o'i gymharu â'r llynedd, mae'r naill a'r llall ar ei hôl hi o gymharu â'r DU gyfan (53% a 77% yn y drefn honno).

Mae cysylltiad cryf rhwng risg cath unigol o gael ei heintio â pharasitiaid a'i ffordd o fyw, gan gynnwys a yw'n mynd allan i'r awyr agored a'i deiet. Felly, dylid gwerthuso triniaeth llyngyr pob cath ar sail risg-budd a dylai milfeddygon addysgu perchnogion am y protocol triniaeth gorau. Eleni, ychwanegwyd yr opsiwn 'mor aml ag yr argymhellir gan filfeddyg' at y rhestr o opsiynau ymateb. Mae hyn yng ngoleuni tystiolaeth ddiweddar y gall gorddefnyddio parasitleiddiaid mewn anifeiliaid anwes achosi niwed i'r amgylchedd*. Mae perchnogion a milfeddygon yn fwyfwy tebygol o ddewis monitro a thrin parasitiaid yn ôl risg y gath neu ar sail arwyddion clinigol o blâu, yn hytrach na glynu wrth driniaeth ataliol gyffredinol.


*Preston-Allen RGG., et al. (2023) Are urban areas hotspots for pollution from pet parasiticides? Grantham Institute Briefing note #15.



# Iechyd a deiet

## Diet a phwysau'r corff

Canfyddiadau perchnogion yng Nghymru o bwysau corff eu cathod.





**Dros bwysau: 36%**
**Pwysau delfrydol: 28%**
**Dan bwysau: 38%**
**Ddim yn gwybod: 5%**


Dylid nodi y gall fod yn heriol i berchnogion asesu cyflwr y corff mewn cathod. Efallai mai dyma pam mae ffigurau gordewdra sy'n cael eu cofnodi gan filfeddygon a pherchnogion yn aml yn amrywio. Mae cymorth i berchnogion ar sut i asesu cyflwr corff eu cath yn gywir ac yn wrthrychol yn debygol o fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod mwy o gathod yn parhau i fod yn bwysau ac yn faint delfrydol.

## Cyflyrau iechyd ac anafiadau

Mae **79%** o berchnogion cathod Cymru yn dweud nad oes gan eu cathod gyflyrau iechyd sydd wedi cael diagnosis, sy'n debyg i'r llynedd (80%).



Dywedodd **30%** o berchnogion cathod Cymru fod eu cathod wedi cael eu hanafu ers iddyn nhw fod yn berchen arnyn nhw. Y rheswm mwyaf cyffredin dros anaf yw **ymladd gyda chathod eraill y tu allan i'r aelwyd.**



Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
**Gofal, lles ac ymddygiad cathod**
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Gofal, lles ac ymddygiad cathod

## Ffynonellau gwybodaeth am ofal cathod

Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn ymchwilio fwyfwy i anghenion cathod cyn ac ar ôl bod yn berchen arnyn nhw.

Fe wnaeth **34%** lawer o **ymchwil cyn cael eu cath**

(31% yn 2024)

Mae **34%** yn tueddu i wneud llawer o **ymchwil am y ffordd orau o ofalu am eu cath**

(29% yn 2024)


Mae **41%** yn dweud eu bod yn gofyn am wybodaeth neu **gyngor am eu cath o leiaf unwaith y mis**

(35% yn 2024)


Mae 69% o berchnogion cathod Cymru yn dweud eu bod yn hyderus iawn eu bod yn gwybod beth sydd orau i'w cath (60% yn 2024). Mae'r hyder hwn yn cael ei deimlo'n llai gan berchnogion sy'n ddynion (59%), y rheini nad ydyn nhw wedi cofrestru â milfeddyg (52%) a pherchnogion tro cyntaf (62%). Felly, gallai'r grwpiau hyn elwa o gymorth ychwanegol gan ffynonellau awdurdodol.



Mae perchnogion yng Nghymru yn dal i droi at eu milfeddyg yn gyntaf fel prif ffynhonnell wybodaeth am gathod.




Mae defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol fel ffynonellau gwybodaeth am gathod yn dal i dyfu.



Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
**Gofal, lles ac ymddygiad cathod**
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

## Nid yw'r cynnydd ym mhoblogrwydd TikTok fel ffynhonnell wybodaeth am gathod, a welir mewn rhannau eraill o'r DU, yn amlwg ymysg poblogaeth gyffredinol Cymru sy'n berchen ar gath.

Fodd bynnag, mae ei ddefnydd fel ffynhonnell wybodaeth ar gyfer perchnogion iau yn llawer uwch (18 i 34 oed: 33%). Mae hyn, a phoblogrwydd cynyddol YouTube, yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynyddol cynnwys fideo fel ffordd effeithiol o gyrraedd perchnogion cathod.


"Mae'r byd digidol yn chwarae rhan gynyddol ganolog yn y gwaith o addysgu, cynghori a dylanwadu ar bobl o bob oed. Ac er bod cyfryngau cymdeithasol wrth gwrs yn llawn cynnwys hwyliog a difyr, mae cynulleidfaoedd iau yn benodol hefyd yn defnyddio TikTok, YouTube ac offer deallusrwydd artiffisial i chwilio am gynnwys defnyddiol, cyfarwyddiadol ac addysgol am eu bywydau bob dydd. Mae creu cynnwys, yn enwedig cynnwys fideo, sy'n deillio o chwilfrydedd, anghenion neu fylchau presennol mewn gwybodaeth ein cynulleidfa yn ein helpu ni i gyrraedd mwy o gefnogwyr a pherchnogion cathod a dylanwadu a gwella lles cathod ar raddfa enfawr."



**Vicki Greenfield, Rheolwr Ymgysylltu Digidol, Cats Protection**



Y pum prif weithgaredd sy'n gysylltiedig â chathod y mae perchnogion yn ymgymryd â nhw sawl gwaith yr wythnos neu fwy.




## Mae perchnogion cathod Cymru yn mwynhau cynnwys cathod fwyfwy ar-lein, gydag **81%** yn dweud eu bod yn mwynhau cynnwys ciwt neu ddoniol sy'n gysylltiedig â chathod ar-lein o leiaf unwaith y mis.

Yn gyffredinol, mae Facebook ac YouTube yn dal yn ffynonellau poblogaidd o gynnwys 'hwyliog' sy'n gysylltiedig â chathod (42% a 40% yn y drefn honno). Ond i berchnogion iau rhwng 18 a 24 oed, mae Facebook yn llawer llai poblogaidd (26%), gyda TikTok yn llawer mwy poblogaidd (60%, holl berchnogion cathod Cymru: 34%). Mae Instagram yn ail hoff blatfform agos ar gyfer cynnwys o'r fath yn y grŵp iau hwn (46%, pawb sy'n berchen ar gath: 32%).

"Er bod y rhyngrwyd yn llawn fideos cathod ciwt a doniol, yn anffodus mae ochr dywyll i gynnwys cathod ar-lein. Mae rhai 'tueddiadau' feirol rydyn ni wedi'u gweld yn dangos perchnogion cathod yn achosi niwed neu drallod i'w cathod yn ddiarwybod. Rydyn ni hefyd wedi gweld fideos sy'n cynnwys camwybodaeth am gathod, a allai arwain at les gwael. Mae fideos mwy eithafol sy'n cynnwys cam-drin cathod wedi ymddangos ar nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn ein helpu ni i fynd i'r afael â hyn, mae Cats Protection yn aelod o Gynghrair Creulondeb i Anifeiliaid y Cyfryngau Cymdeithasol (SMACC). Mae SMACC yn gynghrair sydd wedi'i chynllunio i roi terfyn ar y doreth o gynnwys creulondeb i anifeiliaid ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydweithio â'r platfformau i sicrhau nad yw'r cynnwys hwn ar gael, a rhoi terfyn ar ei ledaeniad a gwneud elw ohono.

"Os ydych chi'n dod ar draws unrhyw gynnwys creulondeb i gathod ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn 'pum cam i roi terfyn ar greulondeb ar-lein' SMACC: bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n greulon, peidio â'i wylio, peidio ag ymgysylltu â'r cynnwys, peidio â'i rannu, ac adrodd i'r platfform."



**Jade Emery-Temprano, Swyddog Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd, Cats Protection**

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
**Gofal, lles ac ymddygiad cathod**
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Amgylchedd cathod

## Cathod dan do o'u cymharu â chathod awyr agored


Mae'r rhan fwyaf o gathod yng Nghymru yn cael mynd allan i'r awyr agored.

**Maen nhw'n cael bod tu mewn a thu allan: 64%**
(66% yn 2024)

**Maen nhw bob amser yn aros tu mewn: 33%**
(32% yn 2024)

**– 38% ar gyfer y DU gyfan**

**Maen nhw bob amser yn aros tu allan: 3%**
(2% yn 2024)




"Mae cael bod allan yn yr awyr agored yn cynnig llawer o gyfleoedd i ysgogi'r meddwl, felly os ydych chi'n cadw eich cath dan do, bydd angen i chi efelychu hyn i sicrhau bod gan eich cath les da. Gwnewch yn siŵr eich bod yn neilltuo amser bob dydd i chwarae gyda'ch cath. Mae ychydig o sesiynau byr gyda thegan fel gwialen bysgota yn lle gwych i ddechrau, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw amrywiaeth o deganau y gallan nhw chwarae gyda nhw ar eu pen eu hunain. Rydyn ni hefyd yn argymell bwydo â phosau gyda rhai o'u prydau. Yr hyn sy'n allweddol yw dechrau gyda rhywbeth syml ac yna ei wneud yn fwy o her. Gallwch hefyd ddod â'r tu allan i mewn drwy roi toriadau planhigion, dail a brigau sy'n ddiogel i gathod mewn bocs iddyn nhw gael chwarae â nhw."


**Elin Williams, Ymddygiadwr Cymunedol Rhanbarthol, Cats Protection**





Mae pryder perchnogion yng Nghymru am eu cathod yn cael niwed neu'n diflannu yn golygu eu bod yn eu cadw nhw dan do.

Yn pryderu am y rhain:




Roedd opsiynau ymateb newydd wedi'u cynnwys ar gyfer y cwestiwn hwn eleni yn tynnu sylw ymhellach at ba mor bryderus yw perchnogion Cymru y bydd eu cath yn cael niwed os bydd yn mynd allan. Mae hyn yn arbennig o wir am y risg y bydd cath yn cael damwain ar y ffordd, o'i gymharu â'r DU gyfan. Mae'r ffaith bod gweithgareddau pobl yn cael eu hystyried yn fygythiad go iawn yn tynnu sylw at bwysigrwydd addysgu pob aelod o gymdeithas am ddiogelu lles cathod, nid dim ond y rheini sy'n berchen ar gathod ac yn gofalu amdanyn nhw. Roedd ymestyn hyd bywyd yn rheswm cyffredin dros gadw cath dan do, er bod tystiolaeth yn dangos bod cathod pedigri sy'n cael eu cadw dan do drwy'r amser yn byw am gyfnod byrrach na chathod bridiau cymysg ar gyfartaledd**.

Er nad oes tuedd bendant i gathod gael eu cadw fwyfwy dan do, mae cathod pedigri yn dod yn gynyddol poblogaidd, ac maen nhw'n fwy tebygol o gael eu cadw dan do yn unig. Os bydd tueddiadau o ran perchnogaeth cathod pedigri yn parhau, mae'n bosibl iawn y byddwn yn gweld llawer mwy o gathod yn cael eu cadw dan do yn unig yn y dyfodol. Nid yw bob amser yn hawdd darparu ar gyfer anghenion hanfodol cath pan fydd yn byw dan do yn unig, ac felly mae'n debygol y bydd perchnogion yn elwa o gymorth gyda hyn.




*Opsiwn ymateb newydd ar gyfer 2025.
**Mata F. 2025. Life expectancy of cats in Britain: moggies and mollies live longer. *PeerJ* 13:e18869 https://doi.org/10.7717/peerj.18869

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
**Gofal, lles ac ymddygiad cathod**
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

## Atal niwed i gathod

Mae **30%** o gathod yng Nghymru wedi cael eu hanafu ers bod yng ngofal eu perchennog, 26% yn uwch na'r llynedd.




■ **Wedi cael eu hanafu: 30%**

□ **Heb gael eu hanafu: 70%**

**Cathod yn ymladd yw'r achos mwyaf cyffredin o anafiadau o hyd: 17%.**

**Roedd 9% wedi ymladd gydag anifail arall**

**Roedd 3% wedi cael damwain traffig ar y ffordd**

Nid yw cathod yn rhyngweithio ac yn cymdeithasu yn yr un ffordd ag y mae rhai rhywogaethau anwes eraill (fel cŵn) yn ei wneud. Felly, mae'n bwysig bod perchnogion yn deall ymddygiad cathod ac yn gwneud yr hyn a allan nhw i atal sefyllfaoedd a allai arwain at wrthdaro rhwng cathod. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer aelwydydd gyda mwy nag un cath; roedd 5% o'r cathod a anafwyd wedi brifo wrth ymladd â chathod eraill yn yr un tŷ.

## Ymwybyddiaeth o wenwyndra liliau ymysg perchnogion cathod Cymru: **51%** (54% yn 2024)

Mae gwenwyndra lilïau'n digwydd pan fydd cath yn bwyta unrhyw ran o'r planhigyn, gan gynnwys paill sy'n glynu at got y gath, ac yna'n cael ei lyfu wrth i'r gath olchi ei hun. Gall y tocsinau achosi i'r arennau fethu ac, mewn rhai achosion, gall achosi marwolaeth. Yn ddelfrydol, dylai perchnogion sicrhau nad ydi lilïau o fewn gafael eu cathod. Ond os bydd gwenwyndra'n digwydd, dylid cael gofal milfeddygol ar unwaith oherwydd gall triniaeth gyflym atal methiant yr arennau. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, mae Cats Protection yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol ar draws y sector blodau a manwerthu i wella labelu lilïau a phlanhigion gwenwynig eraill.





## Cathod allan yn crwydro

Mae defnyddio ategolion i fynd â chathod allan yn dod yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru.

**Harnais cath**

**12%** (8% yn 2024)

**Bacpac cath**

**8%** (5% yn 2024)


Mae cathod yn rhywogaeth diriogaethol ac mae'n well ganddyn nhw ddewis sut maen nhw'n crwydro, yn hytrach na thripiau hamdden wedi'u trefnu i ffwrdd o'u cartref cyfarwydd. Mae 52% o gathod yng Nghymru sydd yn cael bod dan do ac yn yr awyr agored yn cael crwydro heb unrhyw rwystrau (41% ledled y DU gyfan). Fodd bynnag, mae llai o gathod yn cael eu cadw mewn aelwydydd trefol yng Nghymru, o'i gymharu â'r DU gyfan (67% o'i gymharu ag 80%), felly mae'n debyg bod faint o ryddid awyr agored sydd ar gael i gathod yng Nghymru yn adlewyrchu hyn.

Roedd opsiynau ymateb newydd eleni yn rhoi rhagor o wybodaeth am fanylion cathod Cymru sy'n cael rhyddid yn yr awyr agored. Mae 36% yn cael rhyddid yn yr awyr agored yn ystod y dydd, ond maen nhw'n cael eu cadw i mewn dros nos. Mae 8% yn cael rhyddid awyr agored mewn lle caeëdig, a dim ond ar dennyn a harnais y mae 3% yn mynd allan.


Pan fydd angen cludo cath (er enghraifft, ar gyfer ymweliad â'r milfeddyg), dylid defnyddio cludydd cathod diogel a chadarn sy'n hawdd ei lanhau. Yn aml, nid yw bacpac cath yn ddigon mawr i gath eistedd neu sefyll yn gyfforddus, ac mae'r ffenestr sy'n rhan o'r bacpac er mwyn i'r cath allu gweld yn tueddu i gynyddu straen iddynt*. Gall harneisiau fod yn anghyfforddus i gathod neu gallan nhw ddianc ohonyn nhw. Yn bwysicaf oll, mae harneisiau cathod yn atal yr ymateb ffoi a gall teimlo'n gaeth waethygu straen cathod yn sylweddol.

## Cathod ac aelodau eraill o'r aelwyd

Mae **36%** o berchnogion cathod yng Nghymru hefyd yn rhannu eu cartref â chi.



Mae gan **42%** o berchnogion cathod yng Nghymru blant (dan 18 oed) sy'n byw gartref.



Mae rhyngweithio cymdeithasol arferol yn wahanol iawn i gathod nag i bobl a chŵn, felly er mwyn cynnal aelwyd gytûn, aml-breswylydd, mae'n bwysig bod anghenion cath yn cael eu hystyried bob amser. Mae hyn nid yn unig yn diogelu lles y gath, ond lles aelodau eraill o'r aelwyd hefyd. Mewn arolwg diweddar, dywedodd bron i dri chwarter y plant eu bod wedi profi rhyw fath o gyswllt negyddol ag anifail anwes*. Fel arfer, dim ond os ydyn nhw dan straen mawr y mae cathod yn dangos arwyddion o ymddygiad ymosodol, felly mae'n bwysig dysgu plant ifanc sut i ryngweithio ag anifeiliaid anwes yn ddiogel, gallu adnabod arwyddion cynnar o straen a pharchu ffiniau eu hanifeiliaid anwes.


Mae'n bwysig i'r sector ailgartrefu cathod gydnabod bod nifer yr aelwydydd lle mae cathod yn rhannu eu cartref â chi ar gynnydd. Os ydi anifeiliaid anwes yn meddu ar gymeriad cytûn, ac maen nhw'n cael eu rheoli'n briodol, gall yr aelwydydd aml-anifail hyn fodloni anghenion unigol pob anifail anwes heb drafferth. Os ymdrinnir â phob achos yn unigol ac yn ofalus, mae'n bosibl na fydd angen un polisi 'dim ci' neu 'dim plant' ar gyfer ailgartrefu cathod, a bydd mwy o gathod yn gallu dod o hyd i gartrefi addas.

*cats.org.uk/cats-blog/what-type-of-carrier-is-best-for-my-cat
**Arolwg Plant ac Anifeiliaid y DU, 2025, Pet Education Partnership (PEP).


Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
**Gofal, lles ac ymddygiad cathod**
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

## Ymddygiad a straen

Mae llawer o gathod yng Nghymru wedi dangos arwyddion posibl o straen yn ystod y 12 mis diwethaf.




Mae **72%** o gathod yng Nghymru wedi dangos o leiaf un ymddygiad straen posibl yn ystod y 12 mis diwethaf.




Mae'r gath wedi dangos o leiaf un ymddygiad straen posib: 72%

Nid yw'r gath wedi dangos unrhyw ymddygiadau straen posibl: 28%



Mae llawer o ymddygiadau a allai achosi niwsans i berchnogion yn gwbl normal i gathod. Mae hyn yn cynnwys ymddygiadau fel crafu o amgylch y tŷ. Mae cathod yn gwneud hyn i gadw eu crafangau mewn cyflwr da, i leddfu straen ac i farcio eu tiriogaeth. Mae cathod hefyd yn hoffi symud yn fertigol o fewn eu hamgylchedd, felly mae neidio ar arwynebau uchel unwaith eto yn ymddygiad greddfol, normal. Gall darparu adnoddau fel tyrau cathod, silffoedd cathod a physt crafu helpu cathod i fynegi'r ymddygiadau arferol hyn mewn ffordd sy'n cadw pawb yn y cartref yn hapus.

Mae dadansoddi ymddygiad cathod yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith bod canfod beth sy'n achosi ymddygiad penodol yn gallu bod yn anodd weithiau. Er enghraifft, gallai damweiniau toiled ddangos haint y llwybr wrinol neu anhwylderar y system dreulio, osteoarthritis neu fod yn arwydd o straen. Dyna pam y dylai milfeddyg ymchwilio i unrhyw newid i ymddygiad cath.


Fodd bynnag, mae cathod yn aml yn dangos arwyddion o straen yn llawer cynharach nag y mae perchnogion yn sylwi arnyn nhw, felly mae'n bwysig bod perchnogion yn cael eu haddysgu beth i gadw llygad amdano, yn ogystal â sut i osgoi sefyllfaoedd sy'n achosi straen i'w cathod yn y lle cyntaf. Yn y pen draw, mae hyn er budd pawb oherwydd gall 'problemau ymddygiad' effeithio'n negyddol ar y berthynas agos rhwng pobl ac anifeiliaid, gan arwain hyd yn oed at rai perchnogion yn dewis ailgartrefu eu cath.

## Tân gwyllt

Gall tân gwyllt beri gofid mawr i bob anifail, gan gynnwys cathod.

Mae **61%** o berchnogion cathod yng Nghymru yn dweud bod tân gwyllt wedi effeithio ar eu cathod.

Mae tân gwyllt yn parhau i gael effaith negyddol ar gathod yng Nghymru. Y tri phrif ymddygiad:



Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
**Cwmnïaeth**
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Cwmnïaeth

Mae manteision lles bod yn berchen ar gath yn parhau i fod yn sbardun cryf i gael cath.

- **Rwyf bob amser wedi cael cathod** – **39%** (39% yn 2024)
- **Fel cwmni i mi / fy nheulu** – **36%** (37% yn 2024)
- **Cefais fy magu gyda chathod ac felly roeddwn i eisiau prynu fy un fy hun ar ôl i mi adael cartref** – **26%** (25% yn 2024)
- **I fy helpu i deimlo dan lai o straen / gorbryder** – **23%** (22% yn 2024)
- **I fy helpu i deimlo yn llai unig** – **23%** (18% yn 2024)
- **Roedd angen gofal arnyn nhw / eu cymryd mewn** – **20%** (22% yn 2024)
- **Rydw i wastad wedi bod eisiau cathod, felly fe ges i un cyn gynted ag y gallwn i** – **18%** (17% yn 2024)
- **Roedd fy mhlentyn / fy mhlant eisiau un** – **15%** (15% yn 2024)
- **Roeddwn i eisiau anifail anwes ac roeddwn i'n meddwl y byddai cael cath yn haws na chael ci** – **12%** (14% yn 2024)
- **Roedd fy mhartner eisiau un / eisoes wedi cael un** – **11%** (9% yn 2024)

Unwaith eto, gyda'i gilydd mae cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen yn brif resymau pam mae pobl Cymru yn dewis bod yn berchen ar gath (51%. 52% yn 2024, 56% yn 2023).

Mae cyfran y perchnogion yng Nghymru sy'n berchen ar gathod oherwydd eu bod 'bob amser wedi cael cathod' yn sylweddol uwch na chyfran y DU gyfan (30%).

**"Mae ein cath yn gymdeithasol, yn chwareus ac yn ffyddlon, ac mae hi'n gwmni perffaith."**

Perchennog sy'n Gymro, 55 i 64 oed



Mae cadw cath yn rhan bwysig iawn o fywyd a lles pobl.

- **Rydw i'n treulio amser yn anwesu fy nghath o leiaf unwaith y dydd** – **89%**
- **Mae cael cath yn fy ngwneud yn hapus** – **77%**
- **Rwy'n siarad â'm cath yn rheolaidd** – **76%**
- **Mae cadw cath yn cael effaith gadarnhaol ar fy lles** – **74%**
- **Mae'n gas gen i adael fy nghath pan fydda i'n mynd i ffwrdd** – **60%**
- **Rwyf wrth fy modd yn sbwylio fy nghath** – **56%**
- **Mae fy nghath yn rhoi rheswm i mi godi yn y bore** – **54%**
- **Rydw i'n siarad llawer am fy nghath** – **52%**
- **Rydw i'n meddwl llawer am fy nghath pan nad ydw i gyda hi** – **48%**
- **Rwy'n rhoi anghenion fy nghath o flaen fy anghenion fy hun** – **45%**

## Roedd **94%** o berchnogion cathod Cymru yn cytuno eu bod yn ystyried y gath yn rhan o'r teulu – gan ddangos yn glir eu safle pwysig yn yr aelwyd.

O'i gymharu â'r DU gyfan, mae perchnogion o Gymru yn cytuno'n mwy cyson â'r datganiadau bod cathod yn fuddiol i les unigolion.

Ers 2020, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n berchen ar gath oherwydd ei bod yn rhoi llawenydd a rheswm iddyn nhw i godi yn y bore. Mae pobl yn dweud eu bod yn meddwl am eu cath yn amlach ac yn ei difetha'n fwy hefyd. Mae nifer y Cymry sy'n dweud eu bod yn siarad llawer am eu cathod yn cynyddu hefyd. Drwy fod yn fwy llafar, mae'n bosibl iawn y bydd gan y perchnogion hyn fwy o botensial i ddylanwadu ar berchnogion eraill, felly maen nhw'n grŵp pwysig i'w targedu gyda negeseuon addysgol priodol.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol

Cyflwr y wlad

Y farchnad gathod

Gofal Milfeddygol

Gofal, lles ac ymddygiad cathod

Cwmnïaeth

**Cymorth gan Cats Protection**

Crynodeb am gathod

Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?

Gwasanaethau




# Cymorth gan Cats Protection

Gan gydnabod pwysigrwydd cathod i'w perchnogion a'r gymdeithas ehangach, mae Cats Protection yn gweithio'n galed i gefnogi perchnogion cathod, yn enwedig yn ystod cyfnod arbennig o heriol.

Cyflawnir hyn drwy wahanol gynlluniau wedi'u trefnu, ymgyrchoedd addysgol a lobïo gwleidyddol. Er mwyn sicrhau bod y cymorth sydd ar gael mor effeithiol â phosibl, mae Cats Protection yn canolbwyntio'n gyson ar wir anghenion cathod a'u perchnogion. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau data, gan gynnwys yr Adroddiad *CATS blynyddol*.



## Cymorth i bobl sy'n dianc rhag cam-drin domestig

Mae Lifeline yn wasanaeth maethu cathod arbenigol ar gyfer pobl sy'n dioddef cam-drin domestig. Drwy sicrhau y bydd eu cath yn cael gofal nes bod modd eu haduno'n ddiogel, mae Lifeline yn cynnig tawelwch meddwl ynghylch un pryder ar adeg heriol iawn.

Roedd gwasanaeth Lifeline ar gael yng Nghymru ym mis Mawrth 2024 ac erbyn diwedd y flwyddyn roedden nhw wedi helpu 33 o berchnogion cathod yng Nghymru i ffoi rhag cam-drin domestig drwy ddarparu cartrefi maeth dros dro a chariadus i 59 o gathod.

**Mae rhagor o wybodaeth am Lifeline ar gael yma cats.org.uk/cp-lifeline**

Gellir cysylltu â Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig yma nationaldahelpline.org.uk neu drwy ffonio 0808 2000 247.

"Gwyddom, yn anffodus, y gall perchnogaeth anifeiliaid anwes fod yn rhwystr rhag gadael cam-drin domestig, a hynny oherwydd ofn yr hyn y gallai'r cyflawnwr ei wneud i'r anifail os caiff ei adael ar ôl. Ac, yn anffodus, nid yw'r rhan fwyaf o lochesi yn gallu derbyn anifeiliaid anwes. Dyna pam mae ein gwasanaeth yn achubiaeth go iawn. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i bobl y byddwn ni'n gofalu am eu cathod wrth iddyn nhw ffoi i rywle diogel, ac y byddan nhw'n dod yn ôl at ei gilydd ar ôl iddyn nhw setlo."

**Amy Hyde, Rheolwr Cenedlaethol Lifeline, Cats Protection**



Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
**Cymorth gan Cats Protection**
Crynodeb am gathod
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

## Dysgu pobl eraill i wneud y byd yn lle gwell i gathod

Mae addysg yn ffocws craidd i Cats Protection, gyda darpariaethau yn cynnwys sgyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gwybodaeth ddibynadwy a hygyrch ar-lein ac ymgyrchoedd aml-gyfrwng sy'n cael eu harwain gan bynciau. Drwy ein darpariaeth mewn ysgolion, colegau ac ymgyrchoedd digidol wedi'u targedu, mae ffocws penodol ar bobl ifanc yn helpu i sicrhau bod perchnogion y dyfodol yn cael digon o wybodaeth am ddiwallu anghenion cathod, gyda'r nod o greu gwelliannau cadarnhaol parhaol i les cathod.

Mae Cats Protection hefyd yn falch o fod yn rhan o'r Pet Education Partnership (PEP), menter gydweithredol rhwng prif sefydliadau lles anifeiliaid y DU, ochr yn ochr â PDSA, yr RSPCA, Blue Cross, Dogs Trust, Woodgreen, USPCA ac SSPCA. Ein gweledigaeth gyffredin yw sicrhau bod addysg am les anifeiliaid ar gael i bob plentyn rhwng pump ac 11 oed yn y DU, gyda'r nod yn y pen draw o'i hymgorffori yn y cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth ar gael yn cats.org.uk/education**

## Sicrhau oes o ofal

Pwy fydd yn gofalu am fy nghath ar ôl i mi fynd? Mae'n bryder sydd gan lawer o berchnogion/darpar berchnogion hŷn. Cafodd Cat Guardians ei sefydlu gan Cats Protection i roi tawelwch meddwl i'r rhai sy'n poeni am hyn. Drwy drefnu bod perchennog yn rhoi gwybod am anghenion unigol ei gath, mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau gofalu am y gath ar ôl i'w pherchennog fynd, yn gyntaf mewn gofal Cats Protection ac yna mewn cartref cariadus newydd sy'n berffaith iddi. Drwy roi'r sicrwydd hwn, y gobaith yw y bydd pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn croesawu cath i'w bywyd yn ystod eu blynyddoedd hŷn.

Yn 2024, fe wnaeth Cat Guardians drefniadau a gofalu am 202 o gathod yr oedd eu perchnogion wedi marw, gan helpu 158 o gefnogwyr.

**Mae rhagor o wybodaeth am Cat Guardians ar gael yn cats.org.uk/catguardians**

## Cefnogi perchnogion drwy golled

Sefydlwyd gwasanaeth cymorth galar Paws to Listen i helpu perchnogion sy'n wynebu un o'r agweddau mwyaf heriol ar fod yn berchen ar gath: eu colli. Mae'r gwasanaeth cyfrinachol hwn, sy'n rhad ac am ddim, yn rhoi perchnogion sy'n galaru mewn cysylltiad â gwrandawyr gwirfoddol hyfforddedig sy'n barod i gynnig cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth ymarferol i berchnogion y mae eu cathod wedi marw, wedi mynd ar goll neu maen nhw wedi cael ei gwahanu oddi wrtrhyn nhw am resymau eraill fel ailgartrefu.

Yn 2024, cafodd ein gwasanaeth cymorth galar Paws to Listen 1,610 o alwadau a negeseuon e-bost.

**Mae rhagor o wybodaeth am Paws to Listen ar gael yn cats.org.uk/paws-to-listen**

"Yn Cats Protection rydyn ni'n deall cryfder y berthynas rhwng pobl a'u cathod. Rydyn ni'n gwybod bod colli cath annwyl, beth bynnag fo'r amgylchiadau, yn gallu bod yn boenus iawn. Yn anffodus, nid yw'r math hwn o alar bob amser yn cael ei gydnabod na'i ddeall gan gymdeithas. Dyna pam mae ein gwirfoddolwyr Paws to Listen yma i ddarparu cefnogaeth a dealltwriaeth, felly does dim rhaid i neb ymdopi â'u colled ar eu pen eu hunain."



**Catherine Joyce, Arweinydd Tîm Paws to Listen, Cats Protection**

## Ymgyrchu i wella bywydau cathod

Byddwn bob amser yn ceisio sbarduno newidiadau sy'n diogelu iechyd a lles cathod a'u perchnogion yn well. Boed hynny'n helpu i gefnogi perchnogaeth cathod drwy annog landlordiaid i roi'r gorau i ddefnyddio polisïau cyffredinol 'dim anifeiliaid anwes' neu alw am reoleiddio bridio cathod, pan fydd sgyrsiau deddfwriaethol pwysig yn digwydd, ni yw'r llais dros gathod.

**Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrchoedd ar cats.org.uk/campaigning**

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
**Crynodeb am gathod**
Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?
Gwasanaethau

# Crynodeb am gathod

## Cyflwr y sector

- Perchnogaeth cathod:

| | Mewn miliynau | | % yr aelwydydd sy'n berchen ar gathod | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2025 | 2024 | 2025 |
| Cyfanswm y DU | 10.6 | **10.2** | 25% | **24%** |
| Lloegr | 9.0 | **8.5** | 25% | **24%** |
| Cymru | 0.5 | **0.5** | 24% | **24%** |
| Yr Alban | 0.8 | **0.7** | 22% | **20%** |
| Gogledd Iwerddon | 0.2 | **0.2** | 21% | **22%** |

- Mae pobl yng Nghymru yn berchen ar 480,000 o gathod
- Mae 61% o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar un gath, mae 39% yn berchen ar ddwy neu fwy o gathod
- Fodd bynnag, mae unigolion o dan 35 oed yn dal yn fwy tebygol o fod wedi cael cath yn ddiweddar
- Mae'r gyfran o berchnogion cathod mewn ardaloedd trefol yng Nghymru(67%) yn llawer llai na chyfran y DU yn gyffredinol (80%)

## Y Farchnad Gathod

- Mae'r gyfran o gathod pedigri ym mhoblogaeth cathod Cymru wedi cynyddu ers y llynedd

| | Cyfanswm poblogaeth cathod anwes yng Nghymru | Cyfanswm poblogaeth cathod anwes yng Nghymru yn 2024 | Cathod a berchnogwyd yn y 12 mis diwethaf |
|---|---|---|---|
| Brîd cymysg / domestig côt hir neu fyr | 57% | 65% | 41% |
| Cath bedigri | 32% | 24% | 49% |
| Traws-frid (heb fod yn frîd cymysg) | 4% | 4% | 2% |
| Ddim yn gwybod | 6% | 6% | 8% |

- 29% o gathod yng Nghymru eu 'prynu', gan barhau â'r duedd gynyddol hon (24% yn 2024, 25% yn 2023, 23% yn 2022, 21% yn 2021)
  - Mae'r ffigur hwn yn is na chyfartaledd y DU gyfan (38%)



## Gofal Milfeddygol

- 26% o berchnogion cathod yng Nghymru yn dweud eu bod wedi cael trafferth yn cael gafael ar filfeddyg
- 11% o gathod yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda milfeddyg
- 59% o berchnogion Cymru nad ydyn nhw'n ymweld â'r milfeddyg mor aml ag y bydden nhw'n dymuno
- Mae'r niferoedd niwtro wedi gostwng yng Nghymru i 81%, gan barhau â thuedd ar i lawr, o 90% yn 2020. Mae 77,000 o gathod yng Nghymru (16%) heb gael eu niwtro
- Mae niferoedd microsglodynnu yn sefydlog yng Nghymru ar 74%
- Mae cyfran y cathod sydd wedi'u hyswirio yng Nghymru wedi cynyddu i 46%
- Mae cyfran y cathod sydd wedi cael brechiadau cyfredol yng Nghymru wedi codi eto i 72%

## Gofal, lles ac ymddygiad cathod

- Mae perchnogion cathod yng Nghymru yn ymchwilio fwyfwy i anghenion cathod cyn ac ar ôl bod yn berchen arnyn nhw:
  - 34% wedi gwneud llawer o ymchwil cyn cael eu cath: (31% yn 2024)
  - 34% yn tueddu i wneud llawer o ymchwil am y ffordd orau o ofalu am eu cath: (29% yn 2024)
  - 41% yn dweud eu bod yn gofyn am wybodaeth neu gyngor am eu cath o leiaf unwaith y mis (35% yn 2024)
- Mae rhan fwyaf o gathod Cymru yn cael rhyddid yn yr awyr agored; mae 33% bob amser yn aros dan do
- Mae defnyddio ategolion i fynd â chathod allan yn dod yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru:
  - harnais cath: 12% (8% yn 2024)
  - bacpac cath: 8% (5% yn 2024)
- 72% o gathod yng Nghymru wedi dangos o leiaf un ymddygiad straen posibl yn ystod y 12 mis diwethaf

## Cwmnïaeth

- Mae manteision llesiant bod yn berchen ar gath yn dal yn ysgogiad cryf dros gael cath; cwmnïaeth, lleihau unigrwydd a lleihau straen yw'r prif resymau y mae pobl Cymru yn dewis bod yn berchen ar gath (51%)
- O'i gymharu â'r DU gyfan, mae perchnogion o Gymru yn cytuno'n mwy cyson â'r datganiadau bod cathod yn fuddiol i les unigolion

Cynnwys
Crynodeb gweithredol
Cyflwr y wlad
Y farchnad gathod
Gofal Milfeddygol
Gofal, lles ac ymddygiad cathod
Cwmnïaeth
Cymorth gan Cats Protection
Crynodeb am gathod
**Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?**
**Gwasanaethau**

# Ble rydyn ni'n mynd o fan hyn?

Bellach yn ei chweched flwyddyn, mae *Adroddiad CATS* yn parhau i daflu goleuni ar fyd cathod a'r bobl sy'n gofalu amdanyn nhw. Mae'n cynnig cipolwg hanfodol i'r sector lles anifeiliaid, y proffesiwn milfeddygol a'r llywodraeth, gan ein helpu ni i gyd i ddeall y ffordd orau o ddiogelu a hyrwyddo lles cathod mewn tirwedd sy'n symud yn gyflym.

Tuedd allweddol yw'r cynnydd mewn cenhedlaeth iau, fwy cefnog o berchnogion cathod. Mae eu hanifeiliaid anwes yn bwysig iawn iddyn nhw ac maen nhw'n awyddus i wneud y peth iawn.
Mae llawer yn troi'n gyntaf at y cyfryngau cymdeithasol am gyngor, ac maen nhw'n fwy tebygol o brynu cath na mabwysiadu un, yn aml yn ffafrio bridiau pedigri, gan gynnwys y rheini sydd â phryderon iechyd hysbys.

Mae hyn yn cynnig cyfleoedd a heriau. Mae'n galonogol gweld buddsoddiad emosiynol cryf mewn cathod, ac rydyn ni'n croesawu unrhyw berchennog sydd eisiau gwneud ei orau.
Ond nid cŵn bach yw cathod. Mae ganddyn nhw ymddygiadau, anghenion a greddfau unigryw.
Mae perchnogaeth gyfrifol yn dechrau drwy ddeall beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd i weld y byd drwy lygaid cathod, gan gynnwys bocs baeddu a thiriogaeth, cwmnïaeth ac annibyniaeth.

Mae addysg felly'n bwysicach nag erioed erbyn hyn. Rydyn ni eisiau helpu holl aelodau'r cyhoedd yn y DU, p'un a ydyn nhw'n berchen ar gath, yn bwydo strae, neu'n dod ar draws gath wyllt, i ddeall anghenion pob cath. Mae angen dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer trin gwahanol fathau o gathod, boed rheini'n gathod y mae pobl yn berchen arnyn nhw yn gathod y gymuned, yn gathod strae neu'n gathod gwyllt. Mae pob un yn haeddu parch, gofal a gwarchodaeth. Mae cenedl sy'n wirioneddol adnabod cathod yn wlad lle mae lles pob cath yn cael ei ddeall yn well a'i ddiogelu'n well.

Rhaid i ni hefyd ystyried sut mae'r tueddiadau hyn yn effeithio ar ailgartrefu cathod. Wrth i gyfraddau mabwysiadu ostwng ac wrth i'r diddordeb mewn prynu cathod pedigri gynyddu, efallai y byddwn yn dechrau gweld newid yn y mathau o gathod sydd angen ein help, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion iechyd neu ymddygiadol cymhleth.

Mae hyn yn gofyn am ddull newydd o gysylltu â mabwysiadwyr posibl.

Mae mabwysiadu'n parhau i fod yn un o'r prif ffyrdd y mae perchnogion cathod yn cael gafael ar eu cathod. Bydd Cats Protection yn parhau i gefnogi cynlluniau'r llywodraeth i ddeddfu ar system drwyddedu ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod canolfannau achub ac ailgartrefu yn cynnal safonau lles sylfaenol ac yn gwneud bywyd gwell i gathod mewn gofal. Byddai cronfa ddata gyhoeddus o sefydliadau lles anifeiliaid trwyddedig yn helpu i sicrhau hyder y rhai sy'n eu cefnogi.

Bydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy effeithiol, rhannu cynnwys fideo diddorol ac addysgiadol, ac adrodd stori unigryw pob cath mewn ffordd sy'n taro tant yn ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd heddiw. Mae ein nod yn aros yr un fath: dod o hyd i'r cartref iawn i bob cath, beth bynnag fo'u cefndir.

Yn Cats Protection, rydyn ni'n ymateb. Rydyn ni'n adolygu sut rydyn ni'n cyfathrebu, yn ehangu ein gwaith addysgol ac yn galw am reoleiddio bridio cathod yn well. Gyda thystiolaeth, tosturi a bron i 100 mlynedd o brofiad, rydyn ni'n sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Bydd poblogaeth iach a chytbwys o gathod yn gofyn am ymrwymiad ar y cyd. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr ag eraill ar draws y sector, gan ddod â'n safbwyntiau, ein heiriolaeth a'n gofal dros gathod at ei gilydd i greu dyfodol gwell iddyn nhw i gyd.

Pa bynnag gam y mae rhywun arno ar ei daith gyda chathod, rydyn ni yma i helpu. Oherwydd mae bywyd yn wirioneddol well gyda chathod.

**John May CVO OBE DL, Prif Weithredwr, Cats Protection**





# Gwasanaethau

**Cyngor cyffredinol a gwasanaeth ailgartrefu cathod.** Llinell gymorth ar gyfer unrhyw un sydd â chwestiynau am eu cathod eu hunain, neu am gathod yn gyffredinol, ac ar gyfer y rheini sy'n dymuno mabwysiadu neu ailgartrefu cath.

**cats.org.uk/contact-us neu 03000 12 12 12**

**Cymorth ysbaddu.** Darparu cymorth ariannol ar gyfer ysbaddu i filoedd o bobl bob blwyddyn.

**cats.org.uk/neutering**

**Sgyrsiau addysg.** Sgyrsiau am ddim mewn ysgolion (ar sail y cwricwlwm) a grwpiau cymunedol, rhoi cyngor i oedolion a phlant am ymddygiad cathod a pherchnogaeth gyfrifol o anifeiliaid anwes.

**cats.org.uk/education**

**Gwarcheidwaid Cathod.** Gwasanaeth am ddim sydd â'r nod o roi tawelwch meddwl i berchnogion cathod sy'n pryderu beth allai ddigwydd pe bydden nhw'n marw cyn y gath.

**cats.org.uk/catguardians neu 01825 741 291**

**Paws to Listen**. Gwasanaeth am ddim sy'n darparu cymorth gyda galar sy'n cael ei redeg gan wrandawyr gwirfoddol hyfforddedig. Mae'r gwasanaeth er budd y rheini y mae eu cath wedi marw, wedi mynd ar goll neu wedi'u gwahanu wrthynt.

**cats.org.uk/paws-to-listen neu 0800 024 9494**

**Lifeline.** Llinell gymorth i'r rhai sydd â chwestiynau am eu cathod eu hunain, neu gathod yn gyffredinol.

**cats.org.uk/cp-lifeline neu 0345 260 1280**

# Gwneud bywyd yn well i gathod, oherwydd bod bywyd yn well gyda chathod

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â stats@cats.org.uk neu ewch i cats.org.uk/stats**

Mae Cats Protection yn elusen gofrestredig 203644 (Cymru a Lloegr), SC037711 (Yr Alban) ac wedi'i restru fel sefydliad Adran 167 gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.
Swyddfa Gofrestredig: National Cat Centre, Chelwood Gate, Haywards Heath, Sussex, RH17 7TT
Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Medi 2025

Diolch i chwaraewyr People's Postcode Lottery am gefnogi gwaith Cats Protection.